

Themâu a Blaenoriaethau sy'n Ymddangos

1. Themâu Cyffredinol

- a. Mae angen codi proffil cyffredinol a hawliau pobl gydag Anableddau Dysgu o fewn y gymuned ehangach a'r gweithlu cyffredinol.
- b. Mae pobl angen gwasanaethau di-dor – mae cytundebau o ran cyllid (rhwng lechyd a Gofal Cymdeithasol) yn bwysig yn y bôn i gael gwared â'r rhwystrau i weithio'n integredig, ac mae strwythurau gwasanaeth lechyd a Gofal Cymdeithasol angen cefnogaeth wrth bontio'n esmwyth i fyd oedolyn.
- c. Mae proffil ac anghenion pobl gydag anawsterau dysgu dwys a lluosog (PMLD) angen bod ar ben blaen meddyliau pobl mor aml, gan na glywir eu lleisiau ac nid yw heriau penodol yn cael eu cydnabod a'u hymateb.

2. Cael y gefnogaeth iawn

- a. Mae pobl angen eu cefnogi i gael mynediad at weithgareddau ac adnoddau 'prif ffrwd' fel y gallent fod yn aelodau actif o'u cymunedau lleol – mae grwpiau cymunedol angen gwybodaeth, cyngor a chymorth, fel y gallent gynnwys a galluogi pobl i fod yn rhan o'u cymuned.
- b. Mae angen cefnogaeth Taliad Uniongyrchol i unigolion a theuluoedd, i'w helpu i fodloni eu canlyniadau mewn ffyrdd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn llawn dychymyg ac yn gynhwysol ac i helpu recriwtio staff.
- c. Mae angen Cefnogaeth Weithgar a Chymorth Ymddygiad Cadarnhaol gan ofalwyr a darparwyr i sicrhau bod unigolion gydag anghenion cymhleth yn gallu cael eu cefnogi'n briodol.
- d. Mae dulliau datblygu angen eu cynnwys a'u hymestyn i wasanaethau plant.
- e. Mae arnom angen sicrhau bod mynediad i gefnogaeth eiriolaeth dda i bobl gydag anawsterau dysgu dwys a lluosog (PMLD).
- f. Mae unigolion a'u teuluoedd angen cael eu cefnogi i gynllunio ar gyfer y dyfodol.
- g. Dylai'r defnydd o dechnoleg ategu a gwella cefnogaeth a hyrwyddo annibyniaeth.
- h. Mae angen ystod briodol o opsiynau seibiant byr, gan gynnwys darpariaeth gwyliau, i unigolion a'u teuluoedd - mae opsiynau'n gyfyngedig.
- i. Mae teuluoedd angen gwybodaeth, cyngor a chymorth cyn-ddiagnostig (ac ôl-ddiagnostig) yn amserol, cydlynedd a sensitif ar wahân neu os nad yw unigolyn yn bodloni'r meini prawf am wasanaethau Anabledd Dysgu statudol. Gallai ychydig o hyn ddod gan deuluoedd eraill.
- j. Mae unigolion a'u teuluoedd angen cymorth mewn argyfwng ac angen gwybod lle i fynd i gael cymorth mewn argyfwng.

- k. Mae'r rhanbarth angen paratoi'n llawn ar gyfer y newidiadau arfaethedig parthed Anghenion Dysgu Ychwanegol, ac mae hyn angen cynnwys rheoli disgwyliadau.
- l. Mae pobl angen gwybodaeth ac asesiad rheng flaen mewn iechyd a gofal cymdeithasol integredig.
- m. Mae arnom angen datblygu a chynnwys presgripsiynau cymdeithasol ar draws pob grŵp oedran.
- n. Mae angen datblygu'r farchnad darparu ar draws gwasanaethau plant, ac mae angen datganiad sefyllfa glir i ddarparwyr.
- o. Mae angen gweithlu profiadol, sydd wedi cael hyfforddiant a chyda sgiliau parhaus, gyda staff sydd yn gwybod ac yn deall y bobl y maent yn eu cefnogi, ac yn fodlon rhoi cynnig ar ddulliau gwahanol, ac sydd â dull cadarnhaol sydd yn canolbwyntio ar unigolyn tuag at beryglon.

3. Cael cyfeillgarwch a pherthnasau

- a. Mae cyfeillgarwch a pherthnasau yn bwysig iawn i bobl – mae unigolion angen cael eu cefnogi a'u galluogi i gael cyfeillgarwch a pherthnasoedd ystyriol sydd yn ymestyn yn ehangach na ffiniau'r gwasanaeth.
- b. Dylai cymorth statudol hyrwyddo yn hytrach nac atal cyfeillgarwch a pherthnasau.

4. Bod â rhywle o safon i fyw

- a. Mae potensial i ddatblygu tai â chymorth a gomisiynir ar y cyd yn isranbarthol.
- b. Mae angen mwy o ystod o opsiynau llety a gwyliau byr i bobl ifanc dan 18 oed.
- c. Mae opsiynau llety ar gyfer pob oedran angen cynnwys:-
 - ✓ camu i fyny, camu i lawr;
 - ✓ ymatebi i argyfwng;
 - ✓ cynllunio ymlaen;
 - ✓ cefnogaeth i bobl sydd ag anghenion cymhleth;
 - ✓ cefnogaeth i rieni sydd ag anabledau dysgu;
 - ✓ cefnogaeth drws ffrynt blaen a rennir;
 - ✓ lleoliadau/ rhannu bywydau oedolyn;
 - ✓ cyfleoedd tai â chymorth traws ffiniol lle bo'n briodol

5. Bod yn iach

- a. Mae angen gwella'r nifer sy'n cymryd gwiriadau iechyd, yn arbennig mewn ardaloedd lle mae'r niferoedd yn isel.
- b. Mae pobl angen mynediad at wybodaeth ynghylch byw'n iach, sgrinio iechyd a gwiriadau iechyd
- c. Weithiau mae pobl angen cymorth i gael mynediad at apwyntiadau a sgrinio iechyd.

6. Bod yn ddiogel

- a. Dylai technoleg fod ar gael a'i ddefnyddio'n ehangach
- b. Mae angen datblygu, peilot a gwerthuso Apiau ffonau ac iPad
- c. Mae angen cynnwys dulliau cadarnhaol at beryglon

7. Bod â rhywbeth ystyrlon i'w wneud

- a. Mae pobl eisiau gweithio a gwirfoddoli - mae angen rhagor o gyfleoedd sy'n cynnig ystod ehangach o brofiadau
- b. Mae angen archwilio a mynd i'r afael â rhwystrau i recriwtio pobl ag anableddau dysgu yn y gweithlu
- c. Pobl angen gwybodaeth a chynghor amserol a chywir ynghylch gwaith a ganiateir ac enillion therapiwtig ac mae angen ymchwilio i opsiynau gwaith rhannol, dros dro ac wedi'u hymchwilio'n llawn.
- d. Dylid bod mwy o ddefnydd o Daliadau Uniongyrchol (gan gynnwys Taliadau Uniongyrchol cyfun) i hwyluso gwaith a gwirfoddoli i'r rheiny sydd angen cymorth yn y gweithle.
- e. Mae cynlluniau megis Project Search angen eu harchwilio a'u hymestyn o bosibl.